


Adolygiad Safonau

Safonau Rheoleiddio Da a'r
Safonau ar gyfer Cofrestrau
Achrededig

2025



Ynglŷn â'r Awdurdod Safonau Proffesiynol


Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (PSA) yw corff goruchwyllo'r Deyrnas Unedig ar gyfer rheoleiddio pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ein cylch gwaith statudol, annibyniaeth ac arbenigedd yn sail i'n hymrwymiad i ddiogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, ac i amddiffyn y cyhoedd.

Mae 10 sefydliad sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd proffesiynol yn y Deyrnas Unedig a gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr yn ôl y gyfraith. Rydym yn archwilio eu perfformiad ac yn adolygu eu penderfyniadau ar addasrwydd ymarferwyr i ymarfer. Rydym hefyd yn achredu ac yn gosod safonau ar gyfer sefydliadau sy'n cadw cofrestrau o ymarferwyr iechyd a gofal nad ydynt wedi'u rheoleiddio gan y gyfraith.

Rydym yn cydweithio â'r holl sefydliadau hyn i wella safonau. Rydym yn rhannu arfer da, gwybodaeth a'n harbenigedd rheoleiddio cyffyrddiad cywir. Rydym hefyd yn cynnal ac yn hyrwyddo ymchwil ar reoleiddio. Rydym yn monitro datblygiadau polisi yn y DU ac yn rhyngwladol, gan roi arweiniad i lywodraethau a rhanddeiliaid. Trwy ein hymgyngori yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, rydym yn rhannu ein harbenigedd ac yn ehangu ein mewnwelediadau rheoleiddiol.

Mae ein gwerthoedd craidd o gywirdeb, tryloywder, parch, tegwch, a gwaith tîm, yn arwain ein gwaith. Rydym yn atebol i Senedd y Deyrnas Unedig. Ceir rhagor o wybodaeth am ein gweithgareddau a dull o weithredu ar www.professionalstandards.org.uk

Tabl Cynnwys



4 Rhagair

6 Cyn i chi ddarllen gweddill y ddogfen hon

7 1. Cefndir a chyd-destun

12 2. Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

18 Atodiad A: Rhestr lawn o gwestiynau'r ymgynghoriad

38 Atodiad B: Safonau Rheoleiddio Da

40 Atodiad C: Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig

43 Ôlnodiadau

Rhagair

Daw'r ymgynghoriad hwn ar ein Safonau Rheoleiddio Da a'n Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig ar adeg dyngedfennol. Mae iechyd a gofal cymdeithasol yn profi pwysau anhygoel sydd wedi effeithio ar bawb sydd ynghlwm, nid lleiaf ymarferwyr, cleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Mae angen newid er mwyn ateb y galw cynyddol am wasanaethau a chreu'r amodau i hyfforddi, recriwtio a chadw'r bobl iawn i ymgymryd â'r swyddi o ymddiriedaeth sydd gan ymarferwyr.

Rydym eisoes yn gweld rolau newydd, technoleg newydd a modelau gwasanaeth newydd yn newid sut mae rheolyddion a Chofrestrau Achrededig yn asesu risg ac yn cymryd camau i amddiffyn y cyhoedd. Ond gyda chyflymder y newid presennol mewn darpariaeth gwasanaethau ar draws y Deyrnas Unedig, er enghraifft trwy ddigideiddio a defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI), mae angen i ni i gyd ddwysáu ein hymdrechion cydweithredol i sicrhau bod rheoleiddio a chofrestru yn gallu cefnogi a rhagweld y newidiadau hyn. Mae angen i reoleiddio symud i ddull mwy ataliol, ac un sy'n cydnabod ei effeithiau ei hun (cadarnhaol a negyddol) ar y bobl y bwriedir eu rheoleiddio a'u hamddiffyn. Ni waeth pa gynnydd a wnawn, bydd mwy i'w wneud bob amser i sicrhau bod iechyd a gofal cymdeithasol, a'r rheoleiddio sy'n eu cefnogi, yn deg ac yn gynhwysol.

Wrth i ni ddechrau blwyddyn olaf ein Cynllun Strategol presennol a dechrau ar y gwaith o baratoi ar gyfer 2026-2029, nid oes amser gwell i ofyn i'n rhanddeiliaid a'r bobl rydym yn eu gwasanaethu a yw dau o'n hofferynnau pwysicaf yn addas i'r diben. Mae'r Safonau a osodwyd gennym yn 2025 yn debygol o fod yn sefydlog am o leiaf y pum mlynedd nesaf, ac yn siapio sut mae rheolyddion a Chofrestrau Achrededig yn cyflawni eu pwrpas o ddiogelu'r cyhoedd yng nghyd-destun y pwysau parhaus a'r ymdrechion hynny i ddiwygio iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae diogelu'r cyhoedd yn ddiben a rennir rhwng yr Awdurdod a'r sefydliadau rydym yn eu goruchwyllo, ond mae ein rôl ychydig yn wahanol i'w rôl hwy oherwydd gallwn edrych ar draws rheolyddion, Cofrestrau Achrededig a'r sector iechyd a gofal cymdeithasol cyfan. O'n pwrpas a'n safle unigryw yr ydym yn deillio ein gweledigaeth a'n cenhadaeth:

- **Ein Gweledigaeth:** Gofal mwy diogel i bawb trwy safonau uchel o ymddygiad a chymhwysedd mewn gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol.
- **Ein Cenhadaeth:** I ddiogelu cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd trwy wella rheoleiddio a chofrestriad gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r Safonau'n rhan ganolog o'r ffordd yr ydym yn cyflawni ein cenhadaeth ac yn cyflawni ein gweledigaeth. Dyma'r offerynnau rydyn ni'n eu defnyddio i ddwyn y sefydliadau rydyn ni'n eu goruchwyllo i gyfrif. Ond yn fwy na hynny, mae'r Safonau'n allweddol i ysgogi gwelliant drwy herio sefydliadau i newid, fel yr ydym wedi'i wneud yn ddiweddar drwy gyflwyno ac asesu safonau ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Rhaid i fersiwn nesaf y Safonau edrych am y pethau cywir fel y gallwn brofi'n effeithiol pa mor dda y mae rheoleiddio'n gweithio ym mhob sefydliad a chymell

gwelliant mewn ffyrdd cyraeddadwy i symud y model rheoleiddio ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn ei flaen.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn un o'r camau yr ydym yn eu cymryd i adolygu'r Safonau i wneud yn siŵr eu bod yn canolbwyntio ar y pethau cywir i ddiogelu'r cyhoedd. Yn y cam hwn, ein prif gwestiwn yw "A ydym yn chwilio am y pethau cywir er budd y cyhoedd?". Mae gennym reswm i fyfrio ar y cwestiwn hwn oherwydd bod llawer o'n Safonau'n cael eu bodloni'n rheolaidd gan y sefydliadau yr ydym yn eu goruchwylio, sy'n dweud wrthym fod y systemau rheoleiddio'n gweithio'n dda ar y cyfan, ond rydym yn dal i glywed am achosion unigol sy'n awgrymu nad yw profiadau'n gyson hyd yn oed mewn sefydliadau sy'n bodloni ein Safonau. Felly, cwestiwn pellach sydd gennym yw "A yw bodloni'r Safonau yn golygu bod sefydliad yn cyflawni rheoleiddio da?"

Unwaith y byddwn yn clywed gennych ac yn gwneud penderfyniadau am yr hyn y dylid canolbwyntio'r Safonau arno, byddwn yn symud i'r cam nesaf i ymgysylltu eto ar sut yr ydym yn asesu'r Safonau. Ar ôl cytuno ar y Safonau a'r dystiolaeth y byddwn yn ei defnyddio i'w mesur, byddwn wedyn yn dechrau cynllunio ar gyfer gweithredu. Bydd hyn yn cynnwys ystyried a oes angen inni wneud newidiadau i'n prosesau asesu, sut i'w haddasu os ydym yn chwilio amdanynt, a mesur pethau newydd, a'r ffordd orau o gyflwyno canfyddiadau ein hasesiadau yn ein hadroddiadau cyhoeddedig.

Rydym yn agored i newid y Safonau cymaint neu gyn lleied ag sydd ei angen: adolygiad radical neu fân ddiwygiadau yn dibynnu ar yr hyn a glywn gennych yn ystod yr ymgynghoriad hwn. O ganlyniad, mae rhai o'r cwestiynau yr ydym yn eu gofyn ar ddechrau'r ymgynghoriad yn eang ac yn agored fel y gallwn ystyried yr hyn y dylem ei gadw, ei newid neu ei ychwanegu.

Ond mae gennym hefyd rai cynigion ar gyfer newid yr ydym am eu profi:

- Dod â'r ddau fath o safon i aliniad lle bo'n bosibl,
- Gwneud y safonau'n gliriach, yn fwy hygyrch a thryloyw,
- P'un a ddylem ymddiddori mewn llywodraethu, diwylliant ac arweinyddiaeth sefydliadol, a sut, o ystyried pa mor aml y mae'n ymddangos fel her yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a'r effaith y gall ei chael ar berfformiad,
- A ellid cyflwyno mesurau i gael gwared ar fylchau mewn gwiriadau euogfarnau troseddol ar gyfer rhai ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol, ac
- A fydd meini prawf newydd ar gyfer cofrestrau sy'n gwneud cais am achrediad yn cefnogi hyder y cyhoedd.

Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn nid yn unig yn siapio dyfodol y Safonau, ond hefyd sut rydym yn asesu sefydliadau yn erbyn y Safonau hynny, ac yn llywio ein ffordd o feddwl am ein Cynllun Strategol nesaf. Gyda chymaint ar y gorwel a allai newid iechyd a gofal cymdeithasol, a'i reoleiddio, mae angen eich barn arnom i allu meddwl yn drwyadl am sut yr ydym yn paratoi i chwarae'r rhan fwyaf effeithiol drwy ein goruchwyliaeth. Felly manteisiwch ar y cyfle i ddylanwadu ar ein penderfyniadau ar sut rydym yn amddiffyn y cyhoedd, yn mynd i'r afael â niwed ac yn gwella rheoleiddio.

Caroline Corby

Cadeirydd

Alan Clamp

Prif Swyddog Gweithredol

Cyn i chi ddarllen gweddill y ddogfen hon

Mae'r esboniwr ymgynghori hwn wedi'i gynllunio i'ch helpu i ymateb i'n cwestiynau ar y Safonau a ddefnyddiwn i asesu perfformiad rheolyddion a Chofrestrau Achrededig.

Gan fod llawer o gwestiynau cyffredin, rydym yn defnyddio un arolwg i gasglu eich barn ar y ddwy set o Safonau.

Dylai'r ddogfen hon eich helpu i ddeall:

- ein gwaith i oruchwylio'r rheolyddion gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol a Chofrestrau Achrededig
- am beth mae'r ymgynghoriad hwn a pham rydym angen eich mewnbwn.

Mae hefyd yn nodi rhestr lawn o gwestiynau'r ymgynghoriad (mae'r rhain i'w gweld yn Atodiad A) a rhestr lawn o'n Safonau (mae'r rhain i'w gweld yn Atodiad B a Atodiad C).

Mae cwestiynau'r ymgynghoriad yn cynnwys:

- rhai cwestiynau cyffredinol amdanoch – byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddadansoddi'r ymatebion. Ceir rhagor o wybodaeth am sut y byddwn yn defnyddio ac yn diogelu eich data yn ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#)
- rhai cwestiynau cyffredin am y Safonau Rheoleiddio Da a Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig
- cwestiwn penodol am y Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig.

Yn olaf, mae'n dweud wrthy ch y pethau pwysig mae angen i chi eu gwybod:

- sut i ymateb i'r ymgynghoriad
- sut rydym yn ymdrin â chyfrinachedd
- ein proses ymgynghori.

1. Cefndir a chyd-destun

Ein gwaith yn goruchwyllo rheolyddion proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol a Chofrestrau Achrededig

Mae darparu iechyd a gofal cymdeithasol diogel i'r cyhoedd yn y DU yn dibynnu ar sicrhau bod y bobl sy'n darparu gwasanaethau yn gymwys, yn brofiadol ac yn ddibynadwy. Mae yna sefydliadau sy'n gweithio i wirio bod ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn bodloni safonau cyn y caniateir iddynt weithio, a thrwy gydol eu gyrfaeodd. Maent hefyd yn ystyried cwynion, ac mewn achosion difrifol iawn, yn cymryd camau os ydynt yn meddwl na ddylai rhywun weithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol mwyach.

Ein rôl ni yw goruchwyllo'r sefydliadau hyn i helpu sicrhau eu bod yn:

- Diogelu, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a budd y cyhoedd;
- Hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd mewn ymarferwyr; a
- Hyrwyddo a chynnal safonau proffesiynol priodol.

Rydym yn goruchwyllo dau fath o sefydliad:

- **Rheolyddion** ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol y mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith iddynt fod wedi'u cofrestru (fel meddygon, deintyddion, fferyllwyr, nyrsys a pharafeddygon).
- **Cofrestrau Achrededig** ar gyfer ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol nad yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith iddynt fod wedi'u cofrestru (fel seicotherapyddion, aciwbigwyr, gweithwyr adsefydlu, therapyddion cyflenwol ac ymarferwyr cosmetig).

Rydym yn gwneud y gwaith hwn drwy asesu'r rheolyddion a'r Cofrestrau Achrededig yn erbyn Safonau. Mae ein Safonau'n cael eu llywio gan egwyddorion rheoleiddio cyffyrddiad cywir yr Awdurdod sy'n datgan y dylai rheolyddion a chofrestrau weithredu mewn ffordd sy'n gymesur, yn gyson, wedi'i thargedu, yn dryloyw, yn atebol ac yn ystwyth.

Mae gennym safonau a phrosesau asesu tebyg, ond nid yr un fath, ar gyfer rheolyddion a Chofrestrau Achrededig.

Safonau Rheoleiddio Da

Mae'r Awdurdod yn adolygu gwaith 10 rheoleiddiwr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r sefydliadau hyn yn cofrestru gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol sy'n gweithio mewn galwedigaethau y mae'r Senedd wedi dweud bod yn rhaid eu rheoleiddio. Rydym yn adolygu pob rheoleiddiwr yn flynyddol, gydag adolygiad manylach bob tair blynedd. Rydym yn defnyddio'r [Safonau Rheoleiddio Da](#) (Atodiad B) fel meincnod i asesu a gwella eu perfformiad.

Mae'r Safonau'n cwmpasu pedair swyddogaeth allweddol y rheolyddion:

1. *Gosod safonau a chanllawiau*
2. *Sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant ymarferwyr*
3. *Gwneud penderfyniadau da ynghylch pwy all fod yn a pharhau i fod yn ymarferwr*
4. *Ystyried cwynion am ymarferwyr.*

Yn ogystal, mae Safonau Cyffredinol sy'n edrych ar draws holl weithgareddau rheoleiddiwr. Mae'r pum Safon hyn yn ymdrin ag ystod o feysydd gan gynnwys: darparu gwybodaeth gywir, hygyrch; eglurder pwrpas; cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant; adrodd ar berfformiad a mynd i'r afael â phryderon sefydliadol; ac ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i reoli risg i'r cyhoedd.

Rydym yn asesu gwybodaeth drwy gydol y flwyddyn sy'n ymwneud â pherfformiad rheoleiddiwr – mae lefel y manylder yr awn iddo yn dibynnu ar p'un a yw'n adolygiad cyfnodol (adolygiad dyfnach sy'n digwydd bob tair blynedd) neu'n flwyddyn fonitro. Os bydd angen inni edrych yn fanylach ar risg benodol a nodir gennym mewn blwyddyn fonitro, byddwn yn gwneud hynny.

Tua diwedd cyfnod adolygu pob rheoleiddiwr, bydd panel mewnol yn penderfynu, yn seiliedig ar ein dadansoddiad, a yw'r rheoleiddiwr wedi bodloni pob Safon ai peidio.

Yna byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad adolygu perfformiad i egluro'r hyn y gwnaethom edrych arno a'r hyn a welsom.

Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig

Yn 2012, diwygiwyd y gyfraith i roi pwerau i'r Awdurdod achredu cofrestrau o ymarferwyr nad ydynt wedi'u rheoleiddio o dan y gyfraith. Un o'n pwerau yw gosod meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gallwn roi achrediad. Galwyd ein meini prawf yn Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig.

Mae'r rhaglen Cofrestrau Achrededig bellach yn cwmpasu 29 o gofrestrau a thros 120,000 o ymarferwyr ar draws ieuchyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys tua 60 o wahanol fathau o alwedigaethau gan gynnwys cyngorwyr a seicotherapyddion, therapyddion cyflenwol ac ymarferwyr cosmetig. Mae ymarferwyr yn gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys y GIG, addysg, sefydliadau gwirfoddol a phractis annibynnol.

Er mwyn achredu cofrestr, mae'r Awdurdod yn ei hasesu yn erbyn y [Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig](#). Cefnogir pob Safon gan ofynion sylfaenol (Atodiad C). Pan fydd cofrestr newydd yn gwneud cais am achrediad, rydym yn defnyddio'r Safonau i wneud penderfyniad ynghylch a ddylem ganiatáu achrediad. Ar ôl eu hachredu, rydym yn ailasesu Cofrestrau Achrededig bob tair blynedd yn erbyn y Safonau ac yn cynnal gwiriadau blynyddol yn ystod y blynyddoedd rhyngddynt. Rydym yn cyhoeddi'r adroddiadau o'n prosesau asesu.

Mae'r Safonau'n sicrhau bod Cofrestrau Achrededig yn gweithredu er budd y cyhoedd ac yn cyflawni swyddogaethau sy'n angenrheidiol i ddiogelu'r cyhoedd. Mae'r Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig yn cynnwys 'prawf budd y cyhoedd', sy'n ein galluogi i gydbwysu risgiau a buddion ymarfer unigolion cofrestredig i benderfynu a yw er budd y cyhoedd i achredu cofrestr.

Y cyd-destun y mae angen i Safonau diwygiedig weithio ynddo

Mae ein [Cynllun Strategol 2023-26](#) yn cynnwys uchelgais i helpu gwneud rheoleiddio yn well ac yn decach. Mae adolygu ein Safonau yn rhan bwysig o sut y byddwn yn gosod y sylfaen ar gyfer cyflawni hyn yn y blynyddoedd i ddod. Mae'n gyfle inni ailffocysu rheoleiddio, gan roi mwy o bwyslais ar fesurau 'i fyny'r afon'¹ a mesurau ataliol a all gefnogi gweithwyr proffesiynol i gyflawni safonau uchel o ofal. Mae angen i'n Safonau hefyd ystyried blaenoriaethau Llywodraeth y DU ar gyfer rheoleiddio proffesiynol, ac ar gyfer trawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol yn ehangach.

Achos cymhellol dros ddiwygio, esblygiad a gwelliant

Roedd Llywodraeth flaenorol y DU wedi cychwyn rhaglen o ddiwygio deddfwriaethol ar gyfer y rheolyddion a oruchwyliwn. Y cam cyntaf o hyn oedd rheoleiddio Cymdeithion Anaesthesia a Chymdeithion Meddygol gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC), a ddaeth i rym ym mis Rhagfyr 2024. Ar adeg ysgrifennu, rydym yn aros am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Llywodraeth newydd am ei blaenoriaethau ar gyfer rheoleiddio proffesiynol.

Gobeithiwn y bydd diwygio yn mynd yn ei flaen, ac yn gyflym. Gallai newidiadau i'r ddeddfwriaeth sy'n sail i rolau'r rheolyddion, nad yw rhai ohonynt wedi'u diweddarau ers degawdau, alluogi rheolyddion i fod yn fwy ystwyth. Gallent hefyd ddod â'r potensial ar gyfer prosesau addasrwydd i ymarfer llai gwrthwynebus. Mae angen i'n Safonau ganiatáu ar gyfer y potensial o ddiwygio, ac i ddiwygio gael ei roi ar waith ar gyfer y rheolyddion a oruchwyliwn ar wahanol adegau.

Ceir newidiadau ehangach hefyd mewn rheoleiddio. Ceisiodd rhaglen reoleiddio doethach llywodraeth flaenorol y DU hyrwyddo arloesedd a thwf.² Mae'r llywodraeth newydd wedi sefydlu Swyddfa Arloesedd Rheoleiddiol i gyflymu mynediad at dechnolegau newydd fel deallusrwydd artiffisial (AI) mewn gofal iechyd.³ Yn Lloegr, mae adolygiad mawr ar y gweill i rolau'r Comisiwn Ansawdd Gofal, sy'n rheoleiddio darparwyr gwasanaethau, a nifer o sefydliadau eraill ym maes diogelwch cleifion.⁴

Mae'r cyfeiriad i'w weld yn glir: rhaid i reoleiddio fod yn alluogwr i arloesi, tra'n cynnal hyder y cyhoedd drwy liniaru risgiau. Bydd cyflawni hyn yn golygu edrych yn ehangach na diwygio deddfwriaethol.

Achos dros ailffocysu rheoleiddio?

Cyflwynodd Adolygiad Darzi⁵ achos dros ddiwygio'r GIG ar raddfa fawr yn Lloegr. Mae llawer o'r heriau a nodwyd yn yr adroddiad yn cyd-fynd â'r rhai a amlygwyd gennym yn

ein hadroddiad yn 2022, [Gofal mwy diogel i bawb](#). Gwelsom fod angen i reolyddion a chofrestrau fod yn ystywyth a chadw i fyny â newidiadau yn y sector sy'n effeithio ar y ffordd y caiff gofal ei ariannu a'i ddarparu. Mae gan reolyddion rôl bwysig wrth reoleiddio ar gyfer risgiau newydd a helpu lleihau anghydraddoldebau. Fe wnaethom hefyd argymhell bod strategaethau rheoleiddio yn cael eu hymgorffori wrth drawsnewid y gweithlu er mwyn helpu cadw cleifion yn ddiogel tra'n lleihau unrhyw faich rheoleiddiol ychwanegol.

Mae'r defnydd o Gofrestrau Achrededig ar gyfer rhai o'r rolau newydd sy'n cael eu datblygu i ehangu mynediad at ofal yn enghraifft o strategaethau rheoleiddio ar waith. Mae ehangu'r Cofrestrau Achrededig ers ein hadolygiad strategol diwethaf o'r rhaglen yn 2021, a'r cynnydd o 15,000 yn nifer yr ymarferwyr y maent yn eu gwasanaethu, yn dangos y gwerth y maent yn ei ddarparu. Ategir hyn gan gymeradwyaeth gan Weinidogion yn ogystal â GIG Lloegr.⁶

Ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, mae'n debygol nad yw'r gwahaniaethau rhwng rheoleiddiwr a Chofrestr Achrededig yn cael eu deall yn dda. Yn ein barn ni, mae hyn yn awgrymu bod angen mwy o gysondeb rhwng y disgwyliadau sydd gennym o Gofrestr Achrededig a'r rhai sydd gennym o reoleiddiwr statudol. Bydd gwahaniaethau pwysig yn parhau rhwng y ddau, ond dylem ymdrechu i sicrhau cysondeb Safonau lle mae hyn yn briodol ac yn berthnasol ac egluro lle mae angen gwahaniaeth.⁷

Mae Deallusrwydd Artiffisial yn haeddu sylw arbennig yma. Mae'n creu cyfleoedd sylweddol, yn ogystal â risgiau, ar gyfer darparu hyfforddiant i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol,⁸ y ffordd y mae gofal ei hun yn cael ei ddarparu,⁹ a'r ffordd y mae rheolyddion a chofrestrau yn cyflawni eu cyfrifoldebau.¹⁰ Mae Prif Weinidog y DU wedi nodi y bydd defnyddio technoleg yn ganolog i ddiwygio'r GIG yn Lloegr.¹¹ Mae'r datblygiadau hyn yn gyflym ac nid ydynt bob amser yn cael eu deall yn dda, ac mae rôl rheolyddion proffesiynol wrth sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn cael ei hanwybyddu weithiau.¹² Nid yw hwn yn faes lle gallwn eistedd yn ôl ac aros am gyfeiriad. Bydd angen i'r Awdurdod a'r sefydliadau y mae'n eu goruchwylio fod yn rhagweithiol wrth nodi a rheoli'r risgiau, a gweithio ar y cyd mewn tirwedd gymhleth, ac mae ein Safonau yn un ffordd y gallwn gefnogi hyn.

Dyneiddio rheoleiddio

Dim ond lleiafrif o gwynion am weithwyr iechyd a gofal proffesiynol sy'n arwain at unrhyw gyfyngiadau ar eu hymarfer. Fodd bynnag, gall yr effeithiau negyddol ar y rhai sy'n ymwneud ag ymchwiliad i addasrwydd i ymarfer gweithiwr iechyd neu ofal fod yn ddifrifol. Mae adroddiadau ar farwolaethau gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud ag achosion addasrwydd i ymarfer¹³ yn amlygu pa mor ddinistriol y gall hyn fod i fywydau personol a phroffesiynol. Ac, fel yr amlygwyd mewn astudiaeth bwysig ddiweddar ledled y DU gan y Brifysgol Agored,¹⁴ gall dod â chwyn am ddigwyddiad trawmatig i reoleiddiwr proffesiynol hefyd fod yn drallodus iawn i achwynwyr a thystion yn y broses.

Mae hyn yn dangos sut y mae symud ffocws rheoleiddio i fesurau ataliol o fudd i bawb. Mae angen i reoleiddio proffesiynol gefnogi gweithwyr proffesiynol i gyrraedd safonau uchel mewn amgylcheddau gweithle sy'n aml yn heriol ac o dan bwysau. Rydym wedi

deall ers tro beth yw rôl bwysig rheoleiddio o ran atal niwed, yn hytrach na gweithredu ar ôl y digwyddiad.¹⁵

Yn ein sector, mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddeall sut y gallai'r gwahanol ymyriadau rheoleiddio effeithio ar ymddygiad cofrestryddion mewn ffyrdd cadarnhaol a negyddol. Beth yw'r ffordd orau o gefnogi unigolion cofrestredig i fodloni safonau gofynnol? Sut allent, yn ddjarwybod, fod yn achosi niwed neu'n tanseilio ansawdd a diogelwch gofal trwy yrru'r mathau anghywir o ymddygiadau?¹⁶ Er mwyn i'n Safonau allu cefnogi'r math hwn o ddull ataliol, byddwn yn ystyried yn fanwl, fesul swyddogaeth, ac yn seiliedig ar dystiolaeth, sut y gall rheoleiddio proffesiynol fanteisio ar y pethau cadarnhaol a lleihau'r pethau negyddol.

Mae angen i'r dull hwn ymestyn i ystyried sut mae diwylliant y rheoleiddiwr neu'r Gofrestr Achrededig yn effeithio ar ba mor effeithiol a theg ydyw wrth gyflawni ei swyddogaethau. Yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi cyflwyno Safon Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) newydd ar gyfer rheolyddion a chofrestrau sydd wedi codi'r bar yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae angen ffocws parhaus ar EDI, a hefyd gwell dealltwriaeth o sut mae diwylliant, llywodraethu ac arweinyddiaeth fewnol yn effeithio ar berfformiad rheoleiddiwr neu gofrestr. Mae'r angen am hyn i'w weld yn Adolygiad Rise o'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), a gynhaliwyd gan Nazir Afzal OBE a Rise Associates. Comisiynodd yr NMC yr adolygiad hwn ar ôl i bryderon difrifol, gan gynnwys am ddiwylliant sefydliadol, gael eu codi gan chwythwr chwiban yn 2023. Canfu'r adolygiad dystiolaeth o fethiannau diogelu ar sail cyfrifon y rhai y siaradodd â nhw. Canfu hefyd fod pobl sy'n gweithio yn y sefydliad wedi profi hiliaeth a mathau eraill o wahaniaethu a bwlio.¹⁷ Er ein bod eisoes wedi nodi'r angen i adolygu ein Safonau cyn i'r canfyddiadau hyn gael eu gwneud, mae'r canfyddiadau yn dangos bod angen inni fyfyrrio ar ffocws ein gwaith a'n ffyrdd o weithio'n fwy cyffredinol.

2. Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

Amcanion yr Adolygiad hwn

Rydym wedi nodi'r amcanion canlynol ar gyfer ein hadolygiad Safonau:

- Sefydlu a yw'r Safonau presennol yn addas at y diben o adolygu ac asesu perfformiad rheolyddion a chofrestrau a sbarduno gwelliant mewn rheoleiddio, ac wrth wneud hynny, amddiffyn y cyhoedd.
- Ystyried a oes unrhyw fylchau yn ein harolygiaeth.
- Ystyried i ba raddau y dylid alinio'r ddwy set o Safonau.

Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn nodi'r Safonau newydd arfaethedig, ond yn hytrach mae'n ceisio barn ar gynigion eang ar gyfer newidiadau i'r [Safonau Rheoleiddio Da](#) a [Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig](#) cyn i ni ddatblygu fersiynau diwygiedig o'r Safonau i'w gweithredu o 2026.

Ymrwymodd ein Cynllun Strategol 2023-26 i adolygu'r ddwy set o Safonau i asesu a ydynt yn dal yn addas i'r diben o ystyried y newidiadau i ofal iechyd a rheoleiddio ac i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn ein helpu i ddeall:

- os yw'r Safonau'n ein helpu i chwilio am y pethau cywir i asesu perfformiad ac ysgogi gwelliant er budd y cyhoedd,
- a yw ein cynigion ar gyfer newidiadau i'r Safonau yn gadarn, ac
- sut y gallwn wella'r Safonau ymhellach.

Er mwyn casglu adborth cychwynnol, cynhaliom weithdai cyn-ymgynghori gyda rhanddeiliaid rhwng Mehefin a Hydref 2024. Cyfarfuom â rheolyddion, Cofrestrau Achrededig, sefydliadau sy'n cynrychioli cleifion, sefydliadau sy'n cynrychioli unigolion cofrestredig, swyddogion y llywodraeth, a chleifion a defnyddwyr gwasanaeth o bob rhan o'r DU. Defnyddiwyd yr adborth a glywsom i baratoi'r ddogfen ymgynghori hon.

Yn ystod y gweithdai hyn, clywsom:

- Gan gleifion: y gallai ein Safonau a'n fframwaith tystiolaeth fod yn gliriach, yn fwy hygyrch i gleifion ac ar gael mewn fformatau gwahanol i hybu cynhwysiant. Clywsom hefyd y dylem gael fersiwn gorfforaethol o'r Safonau a fersiwn hawdd ei defnyddio ar gyfer rhanddeiliaid ehangach megis aelodau'r cyhoedd.
- O blith grwpiau cynrychioliadol unigolion cofrestredig: y dylid cynnwys y diwylliant sefydliadol hwnnw yn ein Safonau, a bod dau ddimensiwn o ddiwylliant y dylai ein Safonau eu hasesu: y diwylliant y mae rheoleidiwr yn ei greu ynddo'i hun fel sefydliad, a'r diwylliant y mae'n ei ragamcanu i'w gofrestryddion a'r cyhoedd. Clywsom hefyd y dylai'r ddyletswydd gonestrydd fod yn berthnasol i reolyddion a'u gweithlu. Gellid mesur hyn drwy lefel

tryloywder y rheoleiddiwr, gan gynnwys polisi cyhoeddi tryloyw a gwefan dda sy'n hawdd ei chyrcu a'i deall.

- Gan y rheolyddion: bod y Safonau i raddau helaeth yn cwmpasu'r holl seiliau perthnasol a'r gweithgareddau a gyflawnir gan y rheolyddion. Yn gyffredinol, byddai'r rheolyddion yn croesawu mwy o arweiniad ar sut i fodloni Safonau ac enghreifftiau o arfer da.
- O'r Cofrestrau Achrededig: nad yw'r safonau a'r gofynion sylfaenol yn ddigon hyblyg ar gyfer yr amrywiaeth o sefydliadau a mathau o ymarferwyr, y dylem ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau, a gallem wneud ein safonau'n gliriach a lleihau'r gorgyffwrdd rhwng gofynion i wneud y broses o ddarparu tystiolaeth i ni yn haws.
- Pwysleisiodd pob grŵp y buom yn ymgysylltu â nhw bwysigrwydd asesu diwylliant a llywodraethu'r rheolyddion, yn enwedig yng ngoleuni'r Adolygiad Diwylliant Annibynnol o'r NMC.

I wneud yn siŵr bod unrhyw newidiadau i'n Safonau yn rhai cywir, rydym am glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb yn y Safonau. Gall hyn gynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i:

- rheolyddion
- Cofrestrau Achrededig
- gweithwyr proffesiynol/ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol
- grwpiau cleifion a'r cyhoedd
- sefydliadau cynrychioliadol proffesiynol ac undebau
- cyflogwyr
- a'r cyhoedd.

Byddwn yn defnyddio ein dadansoddiadau o ganfyddiadau'r ymgynghoriad i wneud yn siŵr ein bod yn deall yr hyn y dylem fod yn chwilio amdano yn ein prosesau asesu. Yna byddwn yn paratoi Safonau a fframweithiau tystiolaeth diwygiedig ac yn penderfynu a ddylem alinio'r ddwy set o Safonau yn agosach.

Yn dilyn hyn, rydym yn bwriadu ymgysylltu â rhanddeiliaid eto i brofi'r fersiynau diwygiedig a gwneud yn siŵr bod ein ffordd o feddwl am sut i fesur y Safonau yn ein prosesau asesu yn gywir.

Ar ôl cytuno ar y Safonau a'r dystiolaeth y byddwn yn defnyddio i'w mesur, byddwn wedyn yn dechrau cynllunio ar gyfer gweithredu, a fydd yn cynnwys ystyried a oes angen i ni wneud newidiadau i'n prosesau asesu os ydym yn chwilio am bethau newydd ac yn eu mesur, a'r ffordd orau o gyflwyno canfyddiadau ein hasesiadau yn ein hadroddiadau cyhoeddedig.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau canlyniad yr ymgynghoriad yn 2025. Bydd y Safonau diwygiedig yn cael eu cyhoeddi yn 2025 ac yn dod i rym yn 2026.

Galwad am dystiolaethn

Fel rhan o'r adolygiad hwn mae'r Awdurdod yn coladu unrhyw ymchwil, data, neu dystiolaeth gyhoeddedig arall sy'n awgrymu ffyrdd y gallai rheoleiddio a chofrestru proffesiynol wella.

Os ydych yn ymwybodol o unrhyw ddeunyddiau cyhoeddedig o'r fath, byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddarparu dolen neu gyfeirnod, ac unrhyw sylwebaeth yr hoffech ei chynnwys. Yna byddwn yn ystyried hyn ochr yn ochr â'r dystiolaeth a nodwyd gennym, wrth edrych yn fanylach ar y newidiadau yr hoffem eu gwneud i'r Safonau.

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn sut y gall rheoleiddio a chofrestru wneud mwy i atal niwed a lleihau unrhyw ganlyniadau anfwriadol negyddol.

Dysgwch fwy am ein galwad i dystiolaeth

Sut mae'r ymgynghoriad wedi'i osod allan

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg byr o fformat yr ymgynghoriad. Mae rhestr lawn o gwestiynau'r ymgynghoriad sy'n ymwneud â phob un o'r Safonau i'w gweld yn Atodiad A.

Bwriedir i'r ddogfen hon gael ei darllen ochr yn ochr â'r arolwg ar-lein. Gallwch gwblhau cymaint o'r cwestiynau ag y dymunwch ym mhob adran.

Mae gan yr ymgynghoriad saith maes cyffredin o gwestiynau ac un maes penodol i'r Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig. Sef:

- Amdanoch chi a/neu eich sefydliad
- Asesu perfformiad mewn ffordd sy'n cyfrannu at ddiogelu'r cyhoedd
- Aliniad rhwng y Safonau Rheoleiddio Da a Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig
- Eglurder, hygyrchedd a thryloywder
- Safonau newydd ar ddiwylliant a/neu lywodraethu a/neu arweinyddiaeth
- Cefnogi disgwyliadau'r cyhoedd ar gyfer gwiriadau cofnodion troseddol

- Meini prawf newydd ar gyfer cofrestrau sy'n gwneud cais am achrediad
- Cwestiynau ychwanegol: gweithredu ac effaith ar gydraddoldeb

Sut i ymateb i'r ymgynghoriad

Rydym yn croesawu ymatebion i unrhyw un neu bob un o'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn.

Ymatebwch trwy gwblhau ein harolwg ar-lein sydd ar gael yn y ddolen hon:

<https://www.surveymonkey.com/r/MMJR7N3>

Os na allwch ddefnyddio'r arolwg ar-lein gallwch anfon ymateb ysgrifenedig i'n cwestiynau yn y ddogfen hon (Atodiad A) i:

standardsreview@professionalstandards.org.uk neu ein cyfeiriad post yw:, gan gynnwys y rhifau cwestiynau a ddarparwyd,)

Professional Standards Authority for Health and Social Care, 16 – 18 New Bridge Street, Llundain EC4V 6AG

Sylwer, os byddwch yn cwblhau'r arolwg ar-lein, gall rhifo cwestiynau awtomataidd amrywio o Atodiad A. Os byddwch yn cyflwyno trwy ddulliau amgen (e.e. e-bost neu gopi caled), nodwch y rhifau cwestiynau a ddarperir yn Atodiad A.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os oes angen fersiwn hygyrch o'r ddogfen hon arnoch, cysylltwch â ni ar 020 7389 8030 neu drwy e-bost at

standardsreview@professionalstandards.org.uk

Dychwelwch eich ymateb atom erbyn **5pm ar 8 Mai 2025**.

Rydym yn croesawu ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn Gymraeg. Mae fersiwn Gymraeg o'n esboniad ymgynghori ar gael yma:

<https://cy.professionalstandards.org.uk/gwella-rheoleiddio/our-consultations/consultation-reviewing-our-standards#>

Cyfrinachedd

Byddwn yn rheoli gwybodaeth a roddwch yn unol â'n polisiau diogelwch gwybodaeth. Gallwch ddod o hyd iddynt ar ein gwefan: [Hysbysiad Preifatrwydd PSA](#)

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu unrhyw wybodaeth a dderbyniwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol yn unol â chyfundrefnau mynediad i wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a'r Ddeddf Diogelu Data 2018 (DPA) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i'r wybodaeth a roddwch gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol, dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, bod Cod Ymarfer statudol yn bodoli y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag o ac sy'n delio â rhwymedigaethau cyfrinachedd, ymysg pethau eraill. O ganlyniad, byddai'n

ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam yr ydych yn ystyried fod y wybodaeth yn gyfrinachol.

Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, i fod yn rhwymol i'r Awdurdod. Byddwn yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a gan amlaf bydd hyn yn golygu na ddatgelir eich data personol i drydydd partïon.

Ein proses ymgynghori

Mae ein proses ymgynghori yn seiliedig ar egwyddorion presennol Swyddfa'r Cabinet ar ymgynghori cyhoeddus, 'Consultation principles: guidance'.¹⁸

Os oes gennych bryderon neu gwynion / sylwadau yn ymwneud yn benodol â'r broses ymgynghori ei hun, cysylltwch â ni:

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu unrhyw wybodaeth a dderbyniwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol yn unol â chyfundrefnau mynediad i wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a'r Ddeddf Diogelu Data 2018 (DPA) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i'r wybodaeth a roddwch gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol, dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, bod Cod Ymarfer statudol yn bodoli y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag o ac sy'n delio â rhwymedigaethau cyfrinachedd, ymysg pethau eraill. O ganlyniad, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam yr ydych yn ystyried fod y wybodaeth yn gyfrinachol.

Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, i fod yn rhwymol i'r Awdurdod. Byddwn yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a gan amlaf bydd hyn yn golygu na ddatgelir eich data personol i drydydd partïon.

Ein proses ymgynghori

Mae ein proses ymgynghori yn seiliedig ar egwyddorion presennol Swyddfa'r Cabinet ar ymgynghori cyhoeddus, 'Consultation principles: guidance'.¹

Os oes gennych bryderon neu gwynion / sylwadau yn ymwneud yn benodol â'r broses ymgynghori ei hun, cysylltwch â ni:

¹ Swyddfa'r Cabinet. 2016 *Consultation principles: guidance*. Ar gael ar: [Consultation principles 2016 \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk) [Cyrchwyd 20 Gorffennaf 2022].

standardsreview@professionalstandards.org.uk neu ein cyfeiriad post yw:, gan
gynnwys y rhifau cwestiynau a ddarparwyd,)

Professional Standards Authority for Health and Social Care,
16 – 18 New Bridge Street,
Llundain
EC4V 6AG

Chwefror 2025

Atodiad A: Rhestr lawn o gwestiynau'r ymgynghoriad

Rhan A: Cwestiynau cyffredin yn ymwneud â Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig a Safonau Rheoleiddio Da

Adran 1: Amdanoch chi a/neu eich sefydliad

Er mwyn ystyried sut mae gwahanol bobl yn ymateb i'r ymgynghoriad mae angen i ni ofyn rhai cwestiynau a fydd yn ein helpu i ddadansoddi'r ymatebion yn ein dadansoddiadau. Rydym am ddeall sut y gallai'r cyhoedd neu ddefnyddwyr gwasanaethau feddwl neu deimlo'n wahanol i'r rhai sy'n ymwneud â darparu a rheoleiddio iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym hefyd angen eich caniatâd i brosesu eich ymatebion, felly rydym yn gofyn i chi gadarnhau y byddwch yn caniatáu i ni brosesu ymatebion yn unol â'n [Hysbysiad Preifatrwydd](#).

Pob ymatebydd

Cwestiwn 1: Beth yw'ch enw? (dewisol)

Cwestiwn 2: Beth yw'ch cyfeiriad e-bost? (dewisol)

Cwestiwn 3: Ydych chi'n ymateb:

- 1) ar eich rhan eich hun
- 2) ar ran sefydliad

Unigolion

Cwestiwn 4: O ba wlad yn y DU ydych chi'n ymateb:

- 1) Lloegr
- 2) Gogledd Iwerddon
- 3) Yr Alban
- 4) Cymru
- 5) Tu allan i'r Deyrnas Unedig

Cwestiwn 5: A ydych chi'n ymateb fel:

- 1) aelod o'r cyhoedd neu ddefnyddiwr gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol?
- 2) Ymarferydd a reoleiddir gan y gyfraith?
- 3) Ymarferydd ar gofrestr achrededig?
- 4) Ymarferydd ar gofrestr heb ei hachredu?
- 5) Unrhyw fath arall o atebydd? (nodwch)

Os Dewiswyd opsiwn 2: Cwestiwn 6: Ydych chi wedi cofrestru gyda:

- 1) GCC (Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol)
- 2) CDC (Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol)

- 3) GMC (Y Cyngor Meddygol Cyffredinol)
- 4) GPhC (Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol)
- 5) GOC (Y Cyngor Optegol Cyffredinol)
- 6) GOsC (Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol)
- 7) HCPC (Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal)
- 8) NMC (Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth)
- 9) PSNI (Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon)
- 10) Social Work England

Os dewisoch opsiwn 3: Cwestiwn 7: Ydych chi wedi cofrestru gyda:

- 1) AHCS (Yr Academi Gwyddor Gofal Iechyd)
- 2) ACP (Cymdeithas Seicotherapyddion Plant)
- 3) ACC (Cymdeithas Cristnogion mewn Cynghori a Phroffesiynau Cysylltiedig)
- 4) Sefydliad Athena Herd
- 5) BAAC (Cyngor Aciwbigo Prydain)
- 6) BACP (Cymdeithas Cynghori a Seicotherapi Prydain)
- 7) BAPT (Cymdeithas Therapyddion Chwarae Prydain)
- 8) BASRaT (Cymdeithas Adferwyr a Hyfforddwyr Chwaraeon Prydain)
- 9) BOHS (Cymdeithas Hylendid Galwedigaethol Prydain)
- 10) BPC (Cyngor Seicdreiddiad Prydain)
- 11) BPS (Cymdeithas Seicolegol Prydain)
- 12) Y Gofrestr CBT (BABCP/AREBT)
- 13) CNHC (Cyngor Gofal Iechyd Cyflenwol a Naturiol)
- 14) COSCA (Counselling and Psychotherapy in Scotland)
- 15) HGI (Human Givens Institute)
- 16) IOT (Sefydliad y Tricholegwyr)
- 17) IFA (Ffederasiwn Rhyngwladol Aromatherapyddion)
- 18) JCCP (Cyd-gyngor Ymarferwyr Cosmetig)
- 19) NCPS (Y Gymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Cenedlaethol)
- 20) Y Gymdeithas Hypnotherapi Genedlaethol
- 21) PTUK (Play Therapy UK)
- 22) RCT (Cofrestr y Technolegwyr Clinigol)
- 23) RWP (Rhwydwaith Gweithwyr Adsefydlu Proffesiynol)
- 24) Save Face
- 25) UKAHPP (Cymdeithas y Deyrnas Unedig ar gyfer Ymarferwyr Seicoleg Ddyneiddiol)
- 26) UKBHC (Bwrdd Caplaniaid gofal Iechyd y Deyrnas Unedig)
- 27) UKCP (Cyngor Seicotherapi'r Deyrnas Unedig)
- 28) UKPHR (Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y DU)
- 29) UKSBA (Cymdeithas y DU ar gyfer Dadansoddi Ymddygiad)

Cwestiwn 8: Ym mha wledydd yn y DU mae eich sefydliad yn gweithredu?

- 1) Ledled y Deyrnas Unedig
- 2) Ledled Prydain Fawr
- 3) Lloegr yn unig
- 4) Gogledd Iwerddon yn unig
- 5) Alban yn unig
- 6) Cymru yn unig
- 7) Ddim yn sefydliad yn y DU

Cwestiwn 9: A ydych yn ymateb ar ran: (dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- 1) Rheoleiddiwr proffesiynol
- 2) Rheoleiddiwr system
- 3) Cofrestr Achrededig
- 4) Cofrestr arfaethedig
- 5) Corff goruchwyllo gwasanaeth iechyd neu ofal
- 6) Darparwr gwasanaeth iechyd neu ofal
- 7) Llywodraeth y DU neu Weinyddiaeth Ddatganoledig
- 8) Sefydliad sy'n cynrychioli cleifion
- 9) Undeb, corff proffesiynol, sefydliad amddiffyn, masnach neu gorff cyflogwr
- 10) Yswiriwr neu indemniwr
- 11) Darparwr gwasanaethau cyfreithiol
- 12) Cyflogwr proffesiynau neu alwedigaethau iechyd a gofal
- 13) Arall, nodwch os gwelwch yn dda

Cwestiwn 10: Beth yw enw'r sefydliad yr ydych yn ymateb ar ei ran?

Cwestiwn 11: Beth yw'ch teitl swydd?

Caniatâd i brosesu eich ymateb

Cwestiwn 12: Cadarnhewch eich bod yn rhoi caniatâd i ddadansoddi eich ymateb ac adrodd am grynodebau dadbersonol (gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd am ragor o fanylion am sut rydym yn prosesu data ar gyfer ymgynghoriadau)

- 1) Rhoddaf ganiatâd i'm hymateb gael ei ddadansoddi a'i adrodd dan delerau Hysbysiad Preifatrwydd yr Awdurdod.
- 2) Nid wyf yn rhoi caniatâd i'm hymateb gael ei ddadansoddi. Sylwch, bydd hyn yn golygu na allwn gymryd eich barn i ystyriaeth.

Adran 2: A yw ein Safonau yn chwilio am y pethau iawn?

Mater

Y Safonau Rheoleiddio Da a'r Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig yw'r meincnodau a ddefnyddiwn i asesu perfformiad sefydliad. Rydym yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg i asesu perfformiad. Drwy'r adolygiad hwn rydym am sicrhau ein bod yn chwilio am y pethau cywir i asesu perfformiad ac ysgogi gwelliant (fel annog rheoleiddio ataliol) er budd y cyhoedd.

Mae'r Safonau a ddefnyddiwn i asesu rheolyddion a Chofrestrau Achrededig yn canolbwyntio ar y pedair swyddogaeth allweddol y maent i gyd yn eu cyflawni i ddiogelu'r cyhoedd. Y pedair swyddogaeth hyn yw:

- Gosod safonau a chanllawiau
- Sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant ymarferwyr
- Gwneud penderfyniadau da ynghylch pwy all fod yn a pharhau i fod yn ymarferwr
- Ystyried cwynion am ymarferwyr.

Ar gyfer rheolyddion rydym hefyd yn gosod safonau cyffredinol sy'n cwmpasu:

- Tryloywder, cyfathrebu ac ymgysylltu â gweithgareddau
- Eglurder pwrpas a gweithrediad priodol polisi
- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Adrodd ar berfformiad, dysgu o bryderon ac ymateb i ddysgu yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi a rheoli risgiau i'r cyhoedd mewn perthynas â'u hunigolion cofrestredig

Ar gyfer Cofrestrau Achrededig rydym yn gosod rhai safonau tebyg a rhai safonau ychwanegol:

- Cymhwyster a budd y cyhoedd fel y gallwn benderfynu a ellir ac a ddylai cofrestr gael ei hachredu cyn i ni ystyried pob safon arall
- Llywodraethu, gan gynnwys rheolaeth ariannol a threfniadol, ac arweinyddiaeth strategol ac atebolrwydd.
- Rheoli risgiau sy'n deillio o'r gwasanaethau y mae ymarferwyr yn eu darparu
- Cyfathrebu ac ymgysylltu
- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Yn hanesyddol mae cwynion am ymarferwyr (a elwir yn addasrwydd i ymarfer ar gyfer y rheolyddion) wedi bod, ac yn parhau i fod, yn faes risg uchel. O'r herwydd, rydym

bob amser wedi cael mwy o Safonau yn y maes hwnnw i fynd i'r afael â'r risgiau hynny. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y gallai canolbwyntio ar gwynion arwain at gyflwyno darlun anghytwys o berfformiad cyffredinol neu beidio â nodi risgiau a materion rheoleiddio mewn meysydd eraill, megis addysg a hyfforddiant. Rydym am wybod a yw cydbwysedd y Safonau yn iawn gennym fel bod ein sylw yn ystod pob asesiad yn canolbwyntio ar y manau lle mae angen.

Yn yr un modd, oherwydd ein bod yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg i asesu perfformiad, mae gennym ddi-ddordeb mewn clywed eich barn ynghylch a yw'r Safonau hynny sy'n cael eu bodloni'n rheolaidd yn parhau i fod yn feysydd pwysig y dylem eu profi'n rheolaidd, neu a yw'r rhain yn feysydd nad oes angen cymaint o sylw arnynt oherwydd eu bod mewn llai o berygl o beidio â chael eu bodloni. Er enghraifft, anaml y byddwn yn canfod nad yw rheolyddion yn bodloni'r Safonau a osodwyd gennym ar gyfer cywirdeb eu rhestrau ar-lein o ymarferwyr neu osod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant. Ar gyfer Cofrestrau Achrededig, lle gwnaethom newidiadau eithaf sylweddol i'n safonau yn 2021, nid oes patrwm tebyg o Safonau sy'n cael eu bodloni fel mater o drefn eto, ond credwn y gallai hyn ddechrau digwydd nawr ein bod wedi asesu pob un o'r sefydliadau yn erbyn y safonau diwygiedig.

Rydym hefyd yn deall rôl bwysig rheoleiddio o ran atal niwed, yn hytrach na dim ond cymryd camau ar ôl y digwyddiad. Mewn rheoleiddio proffesiynol, mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddeall sut mae'r gwahanol swyddogaethau ac offer rheoleiddio yn effeithio ar ymddygiad cofrestryddion mewn ffyrdd cadarnhaol a negyddol.

Cynnig

Gofyn am eich barn ynghylch a ydym yn chwilio am y pethau cywir i asesu perfformiad rheoleiddiwr neu gofrestr ac ysgogi gwelliant er budd y cyhoedd. Rydym hefyd am glywed eich barn ynghylch a oes gennym y dull cywir o asesu perfformiad rheoleiddiwr neu gofrestr mewn ffordd sy'n diogelu'r cyhoedd.

Cwestiwn 13: A ydych yn cytuno bod y Safonau yn ffordd effeithiol o asesu ac adrodd ar berfformiad y rheolyddion a'r cofrestrau?

- 1) Ydw
- 2) Nac ydw
- 3) Ddim yn siŵr

Rhowch esboniad

Cwestiwn 14: Er mwyn asesu perfformiad rheolyddion ac ysgogi gwelliant mewn rheoleiddio er budd y cyhoedd, beth ddylem ni ei gadw, ei newid, ei ychwanegu neu ei ddileu yn y Safonau Rheoleiddio Da?

Cadw	Esboniwch eich atebion
Newid	Esboniwch eich atebion
Ychwanegu	Esboniwch eich atebion
Tynnu	Esboniwch eich atebion

Cwestiwn 15: Er mwyn achredu cofrestrau ac ysgogi gwelliant mewn cofrestru er budd y cyhoedd, beth ddylem ni ei gadw, ei newid, ei ychwanegu neu ei ddileu yn y Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig?

Cadw	Esboniwch eich atebion
Newid	Esboniwch eich atebion
Ychwanegu	Esboniwch eich atebion
Tynnu	Esboniwch eich atebion

Cwestiwn 16: A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar sut y gallwn wneud ein Safonau yn addas ar gyfer y dyfodol?

Cwestiwn 17: A oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill i gryfhau'r Safonau ymhellach? (Osgowch ailadrodd sylwadau a nodwyd eisoes yn gynharach yn eich atebion).

Adran 3: Alinio Safonau Rheoleiddio Da a Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig

Mater

Ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, mae'n debygol nad yw'r gwahaniaethau rhwng rheoleiddiwr a Chofrestr Achrededig yn cael eu deall yn dda. Yn ein barn ni, mae hyn yn awgrymu bod angen mwy o gysondeb rhwng y disgwyliadau sydd gennym o Gofrestr Achrededig a'r rhai sydd gennym ar gyfer rheoleiddiwr.

Cynnig

Credwn y dylai'r ddwy set o Safonau fod yr un fath lle bynnag y bo modd ac yn unol ag egwyddorion rheoleiddio cyffyrddiad cywir. Os oes amrywiad rhwng y ddwy set o Safonau, dylid ei egluro.

Mae'r Safonau Rheoleiddio Da a'r Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig yr un fath yn bennaf yn y meysydd canlynol:

- Sut mae'r cofrestrau cyhoeddus yn cael eu rheoli
- Gosod safonau ar gyfer unigolion cofrestredig
- Gofynion addysg a hyfforddiant ar gyfer ymgeiswyr a chofrestryddion
- Cyfathrebu ac ymgysylltu â rheoleiddiwr neu randdeiliaid y Gofrestr Achrededig
- Cwynion am ymarferwyr
- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Trwy'r adolygiad hwn hoffem alinio'r Safonau yn y ffyrdd canlynol:

- Mae pob safon yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn disgrifio'r hyn y mae angen i reoleiddiwr neu gofrestr Achrededig ei gyflawni er mwyn diogelu'r cyhoedd yn hytrach na nodi sut y maent yn cyflawni hyn
- Mae'r canllawiau a'r fframwaith tystiolaeth sy'n sail i'r holl Safonau yn glir ynghylch sut i fodloni safon, ac yn cynnig hyblygrwydd o ran sut y gellir cyrraedd safon
- Dylai'r disgwyliad sydd gennym eisoes i reolyddion gadw safonau a chanllawiau proffesiynol yn gyfredol ac yn seiliedig ar dystiolaeth fod yr un fath ar gyfer Cofrestrau Achrededig.

Credwn **na** ddylai fod aliniad rhwng y ddwy set o Safonau yn y meysydd canlynol:

- Dim ond y Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig ddylai ystyried cymhwysedd ac a yw er budd y cyhoedd i gofrestr gael ei hachredu, gan nad yw'r rhain yn berthnasol i reolyddion y mae eu statws wedi'i nodi yn y gyfraith

- Dim ond y Safonau Rheoleiddio Da all ystyried erlyniadau rheolyddion o droseddau cyfreithiol yn ymwneud â chamddefnyddio teitlau proffesiynol, oherwydd nid yw teitlau wedi'u gwarchod o dan y rhaglen Cofrestrau Achrededig.

Cwestiwn 18: A ydych chi'n meddwl y dylai'r Safonau gael eu halinio cymaint â phosibl?

- 1) Ydw
- 2) Nac ydw
- 3) Ddim yn siŵr

Rhowch esboniad

Cwestiwn 19: A ydych yn cytuno/anghytuno â'n cynigion ar aliniad?

Safonau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau	<ol style="list-style-type: none"> 1) Cytuno 2) Anghytuno 3) Ddim yn siŵr <p>Rhowch esboniad</p>
Hyblygrwydd o ran sut y bodlonir y safonau	<ol style="list-style-type: none"> 1) Cytuno 2) Anghytuno 3) Ddim yn siŵr <p>Rhowch esboniad</p>
Cedwir safonau a chanllawiau proffesiynol yn gyfredol a chânt eu llywio gan dystiolaeth	<ol style="list-style-type: none"> 1) Cytuno 2) Anghytuno 3) Ddim yn siŵr <p>Rhowch esboniad</p>

Adran 4: Eglurder, hygyrchedd a thryloywder

Mater

Mae'r Awdurdod yn diogelu'r cyhoedd ac yn cynnal hyder y cyhoedd drwy oruchwylio'r gwaith o reoleiddio a chofrestru ymarferwyr iechyd a gofal. Mae'n bwysig bod pawb yn deall sut rydym yn cyflawni ein rôl reoleiddiol.

Yn ein hymgysylltiad cyn-ymgyngoriad â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth clywsom y gall ein Safonau fod yn anodd eu deall. Yn ogystal, amlygodd adborth gan reolyddion a Chofrestrau Achrededig yr angen am fwy o eglurder a thryloywder ar y fframwaith tystiolaeth a ddefnyddiwn i farnu a fodlonwyd safon.

Rydym hefyd wedi nodi rhai meysydd o orgyffwrdd di-fudd ym mhob set o Safonau a chanllawiau cysylltiedig yr hoffem eu dileu fel rhan o'r adolygiad hwn yn ogystal â meysydd y mae angen eu symleiddio:

- Yn y Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig rydym yn cynnig uno'r ddwy Safon sy'n ymdrin ag adnabod a rheoli risg (Safonau 1 a 7). Yn ogystal, mae gorgyffwrdd sylweddol yn y gofynion sylfaenol sy'n cefnogi'r Safonau y credwn y gellir eu gwneud yn haws eu deall a'u defnyddio.
- Yn y Safonau Rheoleiddio Da mae gorgyffwrdd yn y Safonau sy'n ymwneud â chodi pryderon a chael eu cefnogi drwy gwynion addasrwydd i ymarfer (Safon 14 a 18) felly rydym yn cynnig cyfuno'r Safonau hyn. Yn ogystal, byddem yn rhannu Safon 15 sy'n canolbwyntio ar degwch a chymesuredd y broses addasrwydd i ymarfer yn ogystal ag amseroldeb y broses. Gan fod amseroldeb addasrwydd i ymarfer yn fater cyfredol i lawer o'r rheolyddion, rydym o'r farn y byddai'n fwy tryloyw, tecach a phriodol i hon fod yn Safon annibynnol.

Cynnig

Dylai'r Safonau Rheoleiddio Da a Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig a chanllawiau cysylltiedig fod:

- Yn hygyrch i bob cynulleidfa a chyflwyno fersiynau amgen os oes angen
- Yn syml a chryno ac yn cynnwys ychydig iawn o ddyblygu
- Yn glir ac yn dryloyw ynghylch sut y gwneir penderfyniadau ynghylch a yw rheoleiddiwr neu Gofrestr Achrededig wedi bodloni'r Safonau

Cwestiwn 20: A oes unrhyw Safonau Rheoleiddio Da sy'n anodd i chi eu deall?

- 1) Oes
- 2) Nac oes

3) Ddim yn siŵr

Os oes, esboniwch pam

Cwestiwn 21: A oes unrhyw Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig sy'n anodd i chi eu deall?

- 1) Oes
- 2) Nac oes
- 3) Ddim yn siŵr

Os oes, esboniwch pam

Cwestiwn 22: A allech ddweud wrthym ym mha feysydd y credwch fod gorgyffwrdd di-fudd yn ein Safonau?

Cwestiwn 23: A yw'n glir sut rydym yn asesu a yw rheoleiddiwr neu Gofrestr Achrededig wedi bodloni'r Safonau?

- 1) Ydi
- 2) Nac ydi
- 3) Ddim yn siŵr

Rhowch esboniad

Cwestiwn 24: A ydych yn cytuno/anghytuno â'n cynigion i ddileu gorgyffwrdd di-fudd yn y Safonau?

Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig Cyfuno ein safonau o amgylch prosesau ar gyfer ystyried risgiau o ymarfer	1) Cytuno 2) Anghytuno 3) Ddim yn siŵr Rhowch esboniad
Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig Lleihau gorgyffwrdd rhwng y gofynion sylfaenol	1) Cytuno 2) Anghytuno 3) Ddim yn siŵr Rhowch esboniad
Safonau Rheoleiddio Da Cyfuno ein safonau ynghylch codi pryderon a chael cymorth drwy godi cwynion am ymarferwyr	1) Cytuno 2) Anghytuno 3) Ddim yn siŵr Rhowch esboniad
Safonau Rheoleiddio Da	1) Cytuno 2) Anghytuno

Gwahanu dwy ran ein safon ynglŷn â chwynion am ymarferwyr yn 1) deg a chymesur a 2) yn amserol

3) Ddim yn siŵr

Rhowch esboniad

Adran 5: Safonau newydd ar ddiwylliant a/neu lywodraethu a/neu arweinyddiaeth

Mater

Ers amser maith rydym ni, ac eraill, wedi bod yn ystyried yr achosion niferus lle gall arweinyddiaeth sefydliadol, llywodraethu neu ddiwylliant sefydliadau pwysig sy'n gwasanaethu'r cyhoedd gael effeithiau negyddol ar staff ac aelodau'r cyhoedd. Ym maes iechyd a gofal gallwn edrych ar yr ymholiadau mawr yn Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford¹⁹, Ysbyty Coffa Rhyfel Gosport²⁰ neu Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Telford²¹. Ym mhob un o'r achosion hyn, cyfrannodd y diwylliant o fewn sefydliadau at ganlyniadau annerbyniol i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

Credwn ei bod yn bwysig sicrhau bod ein holl Safonau yn ysgogi gwelliant yn yr amgylchedd rheoleiddio iechyd a gofal a bydd cyflwyno Safon sy'n canolbwyntio ar ddiwylliant, llywodraethu ac arweinyddiaeth fewnol yn ein cynorthwyo i wneud hynny.

Ym mis Gorffennaf 2024, cyhoeddwyd canfyddiadau adolygiad diwylliant annibynnol²² i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC). Cynhaliwyd yr adolygiad gan Nazir Afzal OBE a Rise Associates, a gomisiynwyd gan yr NMC ar ôl i bryderon difrifol, gan gynnwys am ddiwylliant sefydliadol, gael eu codi gan chwythwr chwiban yn 2023. Canfu'r adolygiad dystiolaeth o fethiannau diogelu ar sail adroddiadau'r rhai y siaradodd â nhw a bod pobl sy'n gweithio yn y sefydliad wedi profi hiliaeth a mathau eraill o wahaniaethu a bwlio.

Mae'r NMC wedi derbyn holl argymhellion yr adolygiad ar gyfer gwella. Gofynnwyd i'r PSA gadeirio Grŵp Goruchwylio Annibynnol yr NMC a fydd yn derbyn diweddiadau rheolaidd ar gynnydd yr NMC a chraffu ar effaith mesurau y mae'n eu cyflwyno i wella ei ddiwylliant a'i berfformiad.

Mae newidiadau diweddar i'n Safonau EDI ar gyfer rheolyddion a chofrestrau eisoes yn ysgogi gwelliannau, ond mae mwy i'w wneud ym maes diwylliant, llywodraethu ac arweinyddiaeth fewnol.

Mae'r Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig eisoes yn asesu agweddau ar lywodraethu ac arweinyddiaeth sefydliad a hoffem gysoni ein Safonau Rheoleiddio Da â hyn. Fodd bynnag, nid yw'r naill na'r llall o'n Safonau yn mesur iechyd y diwylliant mewnol mewn rheoleiddiwr neu Gofrestr Achrededig a hoffem ystyried a ellid cynnwys hyn yn y ddwy set o Safonau.

Yn aml, mae methiannau ym maes iechyd a gofal yn nodi bod diffyg cydweithredu a rhannu arfer da ar draws awdurdodau rheoleiddio yn un o'r achosion sy'n peri i risgiau i'r cyhoedd beidio â mynd i'r afael â hwy yn rhy hir. Rydym am archwilio a allem gyflwyno disgwyliadau yn ein safonau ar gyfer cydweithredu a rhannu arfer da ar draws rheolyddion a Chofrestrau Achrededig.

Cynnig

Dod â'r Safonau Rheoleiddio Da yn unol â'r Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig wrth asesu a yw llywodraethu sefydliad yn cefnogi diogelu'r cyhoedd ac yn hyrwyddo tryloywder, uniondeb ac atebolrwydd.

Ystyried cyflwyno safon newydd i asesu diwylliant sefydliadol rheoleiddiwr a Chofrestr Achrededig a chasglu barn ar sut i fesur diwylliant sefydliad.

Yn ogystal, hoffem roi mwy o bwyslais yn ein Safonau ar reolyddion a chofrestrau yn gwneud mwy i gydweithio a rhannu arfer da.

Cwestiwn 25: A ydych yn cytuno/anghytuno bod llywodraethu, arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol yn elfennau pwysig o sicrhau bod rheoleiddio a chofrestru yn gweithio er budd y cyhoedd?

- 1) Cytuno
- 2) Anghytuno
- 3) Ddim yn siŵr

Rhowch esboniad

Cwestiwn 26: Ydych chi'n meddwl y dylai'r Safonau Rheoleiddio Da ystyried y canlynol:

-llywodraethu sefydliad?

- 1) Ydw
- 2) Nac ydw
- 3) Ddim yn siŵr

Rhowch esboniad

Cwestiwn 27: Ydych chi'n meddwl y dylai'r Safonau Rheoleiddio Da ystyried y canlynol:

-arweinyddiaeth sefydliad?

- 1) Ydw
- 2) Nac ydw
- 3) Ddim yn siŵr

Rhowch esboniad

Cwestiwn 28: Ydych chi'n meddwl y dylai'r Safonau Rheoleiddio Da a'r Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig ystyried:

-diwylliant sefydliad?

- 4) Ydw
- 5) Nac ydw
- 6) Ddim yn siŵr

Rhowch esboniad

Cwestiwn 29: Sut ydych chi'n meddwl y gallai'r Awdurdod asesu:

- diwylliant sefydliad?
- llywodraethu sefydliad?
- arweinyddiaeth sefydliad?

Cwestiwn 30: A ddylem gynnwys yn y Safonau ddisgwyliad bod y rheolyddion a'r Cofrestrau Achrededig yn cydweithio ac yn rhannu'r hyn a ddysgwyd gyda chyd-reolyddion neu gofrestrau a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb?

- 1) Dylech
- 2) Na ddylech
- 3) Ddim yn siŵr

Rhowch esboniad

Cwestiwn 31: Pa feysydd cydweithio ydych chi'n meddwl y dylem ganolbwyntio arnynt?

Adran 6: Cefnogi disgwyliadau'r cyhoedd ar gyfer gwiriadau cofnodion troseddol

Mater

Ar gyfer y mwyafrif o ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol, eu cyflogwyr sy'n cynnal gwiriadau cofnodion troseddol, er efallai na fydd hyn bob amser yn digwydd yn gyson. Ond ar gyfer ymarferwyr hunangyflogedig efallai na fydd gwiriad rheolaidd nac unrhyw wiriad o gwbl.

Mae'r gyfraith ynghylch pwy all gael gafael ar wybodaeth am euogfarnau troseddol hefyd yn wahanol ym mhob gwlad yn y Deyrnas Unedig felly ni allwn fabwysiadu un dull ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan.

Rydym am wella sicrwydd ynghylch gwiriadau euogfarnau troseddol ar gyfer ymarferwyr hunangyflogedig a'r rheini sy'n gyflogedig ond nad ydynt yn cael eu gwirio heb orfodi gwiriadau diangen dro ar ôl tro ar ymarferwyr cyflogedig neu sy'n gwrthdaro â'r gyfraith ym mhob gwlad yn y Deyrnas Unedig. Nid ydym ychwaith am greu disgwyliadau ar gyfer rheolyddion a chofrestrau sy'n feichus yn ddiangen neu'n anaddas i'r diben.

Cynnig

Gosod disgwyliad cymesur bod gwiriadau euogfarnau troseddol yn cael eu sicrhau gan reolyddion a Chofrestrau Achrededig ar gyfer pobl sy'n hunangyflogedig neu'n gyflogedig ond nad ydynt yn cael eu gwirio ac nad ydynt wedi'u cynnwys mewn ffurf arall o wiriad o'u cofnodion troseddol.

Cwestiwn 32: Ydych chi'n meddwl y dylai rheolyddion a Chofrestrau Achrededig gasglu sicrwydd priodol ynghylch gwiriadau euogfarnau troseddol pan nad yw cofrestryddion yn cael gwiriadau fel mater o drefn?

Rheolyddion	4) Ydw 5) Nac ydw 6) Ddim yn siŵr Rhowch esboniad
Cofrestrau Achrededig	4) Ydw 5) Nac ydw 6) Ddim yn siŵr Rhowch esboniad

Cwestiwn 33: Pa ffactorau ydych chi'n meddwl y dylai'r Awdurdod eu hystyried wrth wneud penderfyniad ynghylch a ddylid cyflwyno disgwyliad am sicrwydd ynghylch gwiriadau euogfarnau troseddol?



Rhan B: Cwestiwn penodol i Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig

Adran 7: Meini prawf newydd ar gyfer cofrestrau sy'n gwneud cais am achrediad

Mater

Rydym yn gwneud penderfyniadau am achredu mewn dau gam. Yn y cam cyntaf rydym yn ystyried a yw'r gofrestr yn gymwys i'w hachredu ac a yw er budd y cyhoedd i achredu'r gofrestr yn seiliedig ar risgiau a buddion y practis dan sylw. Yn yr ail gam rydym yn ystyried yr holl Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig, gan gynnwys ailasesu budd y cyhoedd. Mae gennym ddau gam oherwydd ni all rhai sefydliadau gael eu hachredu ar sail cymhwysedd a budd y cyhoedd yn unig ac nid ydym am eu gorfodi i gael eu hasesu, a thalu am asesiad, yn erbyn pob safon os na ellir bodloni'r profion hyn.

Mae'r broses dau gam yn golygu na allwn ystyried achredu yn llawn fel rhan o'r cam cyntaf a rhaid inni aros i asesiad llawn gael ei gwblhau yn ddiweddarach. Gallai methu ag ystyried achredu yn eang yn y cam cyntaf danseilio hyder yn ein proses. Mae hyn oherwydd efallai y byddwn yn cyhoeddi adroddiad sy'n dweud ein bod yn credu bod un o'n Safonau wedi'i bodloni ac yn ymddangos fel pe bai'n cymeradwyo sefydliad na all fodloni ein Safonau neu sy'n gweithredu mewn ffordd a fydd yn effeithio ar enw da'r rhaglen.

Cynnig

I gyflwyno newidiadau sy'n golygu y gallwn ystyried mwy o ffactorau yng ngham cyntaf y broses asesu. Gallem naill ai wneud newidiadau i'r Safonau fel y gallwn gynnal gwiriadau cydymffurfio i sicrhau bod cofrestr yn gweithredu'n gyfreithlon, neu gallem fod yn fwy hyblyg yn ein proses fel ein bod yn rhoi'r gorau i symud cais ymlaen os yw'n amlwg na allai ein Safonau gael eu bodloni ar ôl cam cyntaf yr asesiad.

Cwestiynau

Cwestiwn 34: Ydych chi'n meddwl y dylem ddiwygio'r Safon a ddefnyddiwn yn ystod cam cyntaf yr asesiad i gynnwys gwiriadau cydymffurfio ar gyfer deddfwriaeth berthnasol, megis cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, atal caethwasiaeth fodern, neu ddiogelu data?

- 1) Ydw
- 2) Nac ydw
- 3) Ddim yn siŵr

Rhowch esboniad

Cwestiwn 35: Ydych chi'n meddwl y dylem gael proses fwy hyblyg i allu atal cais yn ystod cam cyntaf yr asesiad os oes rheswm da dros feddwl na ellir bodloni unrhyw rai o'n Safonau?

- 1) Ydw
- 2) Nac ydw
- 3) Ddim yn siŵr

Rhowch esboniad

Cwestiynau atodol:

Cwestiwn 36: Pa ffactorau ddylem fod yn eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer gweithredu unrhyw ddiwygiadau i'r Safonau Rheoleiddio Da a/neu Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig?

Safonau Rheoleiddio Da	Ymateb testun rhydd
Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig	Ymateb testun rhydd

Cwestiwn 37: A ydych yn meddwl y gallai unrhyw un o'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn effeithio (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar unrhyw bersonau â nodweddion gwarchoddedig sy'n dod o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a nodir yn Ndedf Cydraddoldeb 2010 neu gan Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 neu ar ffurfio teulu, bywyd teuluol a pherthnasoedd?

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ni gynnal Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022 fel bod pobl sy'n siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg yn cael yr un cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ag unrhyw un sy'n defnyddio'r Saesneg. Mae'n ofynnol i ni hefyd ystyried effeithiau newidiadau i'r Safonau ar gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Efallai y bydd effeithiau yn cael eu hachosi gan ddylanwad ein Safonau ar reoleiddwyr a Chofrestrau Achrededig a'r effeithiau dilynol ar:

- **Aelodau o'r cyhoedd** yn rhyngweithio â rheoleiddwyr a Chofrestrau Achrededig i:
 - defnyddio cofrestru ar-lein,
 - dod o hyd i wybodaeth am ymarferwyr a'u rolau,
 - ymgysylltu â datblygu polisi ac ymchwil,
 - codi pryderon am ymarferydd, neu
 - gwneud cwynion am reoleiddiwr neu Gofrestr Achrededig.
- **Unigolion cofrestredig** y disgwylir iddynt fodloni safonau proffesiynol neu ofynion eraill i allu cofrestru fel ymarferydd.
- **Staff** sy'n gweithio i reoleiddwyr, Cofrestrau Achrededig a sefydliadau sy'n gyfrifol am iechyd a gofal cymdeithasol.

Felly, rydym am geisio ac ystyried safbwyntiau ynghylch a oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol yn cael eu hachosi gan ein cynigion ar gyfer y Safonau, ac a oes ffyrdd y gallwn wella'r effeithiau cadarnhaol a lleihau'r effeithiau negyddol.

Cwestiwn 38: Gan feddwl am y grwpiau a ddisgrifir uchod neu unrhyw un arall y credwch y gallai gael ei effeithio, a ydych yn meddwl bod ein cynigion yn cael unrhyw effaith ar:

	Effaith gadarnhaol	Effaith negyddol	Dim neu Effaith niwtral
Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?			
Heb drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?			

Eglurwch os gwelwch yn dda

Cwestiwn 39: A ydych chi'n meddwl bod ffyrdd o wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol ein cynigion ar:

	Oes	Nag oes	Ddim yn siŵr
Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?			
Heb drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?			

Os dywedasoch fod ffyrdd o wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol, eglurwch os gwelwch yn dda:

Atodiad B: Safonau Rheoleiddio Da

Safonau Cyffredinol

Safon un: Mae'r rheoleiddiwr yn darparu gwybodaeth gywir, cwbl hygyrch ynghylch ei unigolion cofrestredig, gofynion rheoleiddiol, arweiniad, prosesau a phenderfyniadau.

Safon dau: Mae'r rheoleiddiwr yn glir ynghylch ei ddiben ac yn sicrhau y gweithredir ei bolisiâu yn briodol ar draws ei holl swyddogaethau ac y gweithredir dysgu perthnasol o un maes mewn eraill.

Safon tri: Mae'r rheoleiddiwr yn deall amrywiaeth ei unigolion cofrestredig a'u cleifion a defnyddwyr gwasanaeth ac eraill sy'n rhyngweithio â'r rheoleiddiwr ac yn sicrhau nad yw ei brosesau yn cyflwyno rhwystrau gormodol neu'n creu unrhyw fath o anfantais arall i bobl gyda nodweddion gwarchoddedig.

Safon pedwar: Mae'r rheoleiddiwr yn adrodd ar ei berfformiad ac yn delio â phryderon a nodwyd amdano ac yn ystyried goblygiadau canfyddiadau ymchwiliadau cyhoeddus ac adroddiadau perthnasol eraill am faterion rheoleiddio gofal iechyd.

Safon pump: Mae'r rheoleiddiwr yn ymgynghori gydag a gweithio gyda'r holl randdeiliaid perthnasol yn ar draws ei swyddogaethau i nodi a rheoli risgiau i'r cyhoedd parthed ei unigolion cofrestredig.

Canllaw a safonau

Safon chwech: Mae'r rheoleiddiwr yn cynnal safonau cyfredol ar gyfer y rhai sydd wedi cofrestru a gedwir dan adolygiad ac yn blaenoriaethu gofal a diogelwch ble mae'r claf a'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog.

Safon saith: Mae'r rheoleiddiwr yn darparu canllaw i helpu unigolion cofrestredig weithredu'r safonau ac yn sicrhau bod ei ganllaw yn gyfredol, yn delio â meysydd risg sy'n dod i'r amlwg, ac yn blaenoriaethu gofal a diogelwch ble mae'r claf a'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog.

Addysg a hyfforddiant

Safon wyth: Mae'r rheoleiddiwr yn cynnal safonau addysg a hyfforddiant cyfredol a gedwir dan adolygiad, ac yn blaenoriaethu gofal a diogelwch ble mae'r claf a'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog.

Safon naw: Mae gan y rheoleiddiwr fecanwaith cymesur a thryloyw ar gyfer sicrhau bod y darparwyr a rhaglenni addysgol mae'n eu goruchwylio yn darparu myfyrwyr a hyfforddeion sy'n bodloni gofynion y rheolyddion ar gyfer cofrestru, ac yn gweithredu ble mae ei weithgareddau sicrwydd yn nodi pryderon naill ai am hyfforddiant neu bryderon diogelwch cleifion ehangach.

Cofrestru

Safon deg: Mae'r rheoleiddiwr yn cynnal ac yn cyhoeddi cofrestr gywir o'r rhai sy'n bodloni ei ofynion yn cynnwys unrhyw gyfyngiadau ar eu hymarfer.

Safon un ar ddeg: Mae'r broses ar gyfer cofrestru, yn cynnwys apeliadau, yn gweithredu'n llyfn, yn deg ac effeithiol, gan esbonio penderfyniadau yn glir.

Safon deuddeg: Rheolir y risg o niwed i'r cyhoedd a difrod i hyder y cyhoedd yn y proffesiwn yn gysylltiedig â rhai nad ydynt wedi cofrestru yn defnyddio teitl a ddiogelir neu'n cyflawni gweithred a ddiogelir mewn modd cymesur a seiliedig ar risg.

Safon tair ar ddeg: Mae gan y rheoleiddiwr ofynion cymesur i fodloni ei hun fod unigolion cofrestredig yn dal i fod yn addas i ymarfer.

Addasrwydd i ymarfer

Safon pedair ar ddeg: Mae'r rheoleiddiwr yn galluogi unrhyw un i fynegi pryder am unigolyn cofrestredig.

Safon pymtheg: Mae proses y rheoleiddiwr ar gyfer archwilio ac ymchwilio achosion yn deg, yn gymesur, yn delio gydag achosion yn gyflym ac yn gyson gyda datrysiad teg o'r achos ac yn sicrhau bod tystiolaeth briodol ar gael i gefnogi penderfynwyr i wneud penderfyniad teg sy'n diogelu'r cyhoedd yn ystod pob cam o'r broses.

Safon un ar bymtheg: Mae'r rheoleiddiwr yn sicrhau y gwneir pob penderfyniad yn unol â'i brosesau, eu bod yn gymesur, yn gyson a theg, yn ystyried yr amcanion statudol, safonau'r rheoleiddiwr a'r gyfraith achos berthnasol ac yn blaenoriaethu diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

Safon dwy ar bymtheg: Mae'r rheoleiddiwr yn nodi ac yn blaenoriaethu pob achos sy'n awgrymu risg difrifol i ddiogelwch cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaeth ac yn ceisio gorchmynion dros dro ble fo'n briodol.

Safon deunaw: Cefnogir pob parti i gŵyn i gymryd rhan effeithiol yn y broses.

Dysgwch fwy am ein Safonau Rheoleiddio Da a sut rydym yn eu defnyddio ar hyn o bryd fel rhan o'n [hadolygiadau perfformiad o reoleiddwyr](#).

Atodiad C: Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig

Safon Un: Cymhwyster a lles y cyhoedd

Mae'r sefydliad yn cadw cofrestr o bobl mewn rolau iechyd ac/neu ofal cymdeithasol nad ydynt yn amodol i reoleiddio statudol. Mae'r gweithgareddau a gyflawnir gan rai sydd wedi cofrestru yn debygol o fod yn fuddiol i iechyd ac/neu les y cyhoedd ac mae modd cyfiawnhau a lliniaru ar gyfer unrhyw niwed.

1a) Cymhwyster y gofrestru dan ein deddfwriaeth

1b) Ystyriaeth lles y cyhoedd

Safon Dau: Rheoli'r gofrestr

Mae'r sefydliad yn cynnal ac yn cyhoeddi cofrestr gywir o'r rhai sy'n bodloni ei ofynion yn cynnwys unrhyw gyfyngiadau ar eu hymarfer.

2a) Y broses gofrestru

2b) Y gofrestr

Safon Tri: Safonau ar gyfer y rhai sydd wedi cofrestru

Mae'r sefydliad yn gosod safonau priodol ar gyfer cymhwyster, ymddygiad proffesiynol a moesegol, ac ymarfer busnes.

3a) Cymhwyster

3b) Ymddygiad proffesiynol

3c) Arfer busnes

Safon Pedwar: Addysg a hyfforddiant

Mae'r sefydliad yn sefydlu safonau addysg priodol ar gyfer y rôl (neu rolau) a gofrestrir ac yn sicrhau y gall rhai sydd wedi cofrestru nodi pan all fod angen cyfeirio at weithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol arall.

4a) Mae'r rheoleiddiwr yn cynnal safonau addysg a hyfforddiant cyfredol a gedwir dan adolygiad ac yn blaenoriaethu gofal a diogelwch ble mae'r claf a'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog.

4b) Mae gan y gofrestr fecanwaith cymesur a thryloyw ar gyfer sicrhau ei hun bod y darparwyr a rhaglenni addysgol mae'n eu goruchwylio neu dderbyn yn darparu myfyrwyr a hyfforddeion sy'n bodloni gofynion y gofrestr ar gyfer

cofrestru, ac yn gweithredu ble mae ei weithgareddau sicrwydd yn nodi pryderon naill ai am hyfforddiant neu ddiogelwch cleifion ehangach.

4c) Mae'r gofrestr yn gwneud ei safonau addysg a hyfforddiant yn glir ac yn hygyrch i'w cyhoedd i alluogi'r rhai hynny sy'n defnyddio'r gofrestr i wneud penderfyniadau gwybodus.

Safon Pump: Cwynion a phryderon am y rhai a gofrestrir

Mae gan y sefydliad brosesau cadarn ar waith ar gyfer sicrhau y delir yn amserol gyda phryderon ynghylch y rhai sydd wedi cofrestru mewn modd tryloyw, amserol a theg.

5a) Delioâ chwynion a phryderon

5b) Tryloywder penderfyniadau a chanlyniadau

Safon Chwech: Llywodraethu

Mae trefn lywodraethu'r sefydliad yn cefnogi diogelu'r cyhoedd ac yn hyrwyddo tryloywder, cywirdeb ac atebolrwydd.

6a) Rheolaeth ariannol a sefydliadol

6b) Arweinyddiaeth strategol ac atebolrwydd

Safon Saith: Rheoli risgiau sy'n deillio o weithgareddau'r rhai a gofrestrir

Mae gan y sefydliad ddealltwriaeth drylwyr o'r risgiau i ddefnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd a gyflwynir gan y gweithgareddau a gyflawnir gan y rhai sydd wedi cofrestru ac mae'n cymryd camau i'w lliniaru.

Safon Wyth: Cyfathrebu ac ymgysylltu

Mae'r sefydliad yn darparu gwybodaeth glir a hygyrch i'r cyhoedd, ei unigolion cofrestredig a rhanddeiliaid eraill amdani ei hun, y rôl (neu rolau) mae'n eu cofrestru, ac ynghylch y rhaglen Cofrestrau Achrededig. Mae'n defnyddio ymgysylltu gyda rhanddeiliaid perthnasol i hysbysu a hybu diogelu'r cyhoedd.

Safon Naw: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae'r sefydliad yn dangos ei ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn sicrhau bod ei brosesau'n deg ac yn rhydd rhag gwahaniaethu annheg.

9a) Ategir swyddogaethau rheoleiddio'r gofrestr gan degwch a chydraddoldeb mynediad i unigolion cofrestredig a defnyddwyr gwasanaeth.

9b) Mae'r gofrestr yn deall amrywiaeth ei unigolion cofrestredig, defnyddwyr gwasanaeth ac achwynwyr ac mae'n ymwybodol o faterion a allai effeithio ar y

rhai â nodweddion gwarchoddedig fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu grwpiau a restrir o dan Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon.

9c) Mae'r gofrestr yn gweithio i hyrwyddo a gwella EDI trwy geisio deall a gweithredu ar faterion sy'n effeithio ar y rolau cofrestredig a defnyddwyr gwasanaeth.

Darganfyddwch fwy am ein [Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig](#)

Ôlnodiadau

¹ Nod rheoleiddio i fyny'r afon yw symud y ffocws o un o orfodi i un sy'n ceisio atal niwed rhag digwydd yn y lle cyntaf.

² [Rheoleiddio callach - GOV.UK](#)

³ [Game-changing tech to reach the public faster as dedicated new unit launched to curb red tape - GOV.UK](#)

⁴ [Review of patient safety across the health and care landscape: terms of reference - GOV.UK](#)

⁵ [Independent investigation of the NHS in England - GOV.UK](#)

⁶ I'w defnyddio mewn therapïau siarad – [Psychological wellbeing practitioner | Health Careers](#) and [Psychological wellbeing practitioner | Health Careers](#)

⁷ Mae hyn yn adlewyrchu'r dull rydym yn annog rheolyddion i'w gymryd wrth ystyried yr angen am gysondeb ac amrywiad ar draws y rheolyddion a oruchwyliwn.

⁸ [The impact of artificial intelligence on clinical education: perceptions of postgraduate trainee doctors in London \(UK\) and recommendations for trainers | BMC Medical Education | Full Text](#)

⁹ [AI in Medicine | NEJM](#)

¹⁰ [AI in regulation: Applications and use cases](#)

¹¹ [Starmer insists NHS must make better use of tech amid data protection concerns | The Independent](#)

¹² [Ymateb yr Awdurdod i Bapur Gwyn y Llywodraeth ar reoleiddio AI:](#)

¹³ [Doctors who commit suicide while under GMC fitness to practise investigation](#)

¹⁴ [Witness To Harm, Holding To Account | An Open University research study](#)

¹⁵ [Malcolm Sparrow's "The Character of Harms: Operational Challenges in Control" | Harvard Kennedy School](#)

¹⁶ Gall hyn fod, er enghraifft, lle mae ofn Addaswydd i Ymarfer yn ysgogi arfer amddiffynnol, yn effeithio ar iechyd meddwl, neu hyd yn oed yn arwain at gofrestryddion yn cymryd eu bywydau eu hunain tra bod ymchwiliad yn cael ei gynnal. Ffynonellau:

<https://www.cambridge.org/core/journals/bjpsych-bulletin/article/why-regulation-hurts-balancing-the-need-to-maintain-standards-with-the-mental-health-impact-on-public-sector-professionals/32A084C794DABBCB53FAFC6A8514BE28>; [Adroddiad ar y gweithwyr deintyddol proffesiynol a fu farw tra bod pryderon addaswydd i ymarfer yn cael eu hymchwilio](#)

¹⁷ <https://www.nmc.org.uk/about-us/shaping-our-culture/independent-reviews/>

¹⁸ Swyddfa'r Cabinet. 2016 *Consultation principles: guidance*. Ar gael ar: [Consultation principles 2016 \(publishing.service.gov.uk\)](#) [Cyrchwyd 20 Gorffennaf 2022].

¹⁹ [Report of the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust Public Inquiry - GOV.UK](#)

²⁰ [Gosport Inquiry](#)

²¹ [Ockenden review of maternity services at Shrewsbury and Telford Hospital NHS Trust - GOV.UK](#)

²² [Independent culture review - Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth](#)